

## **Nodyn gan Lywodraeth Cymru i egluro'r polisi ar ddefnyddio'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd wrth gynnal prosiectau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol**

### **1. Y Cyd-destun**

- 1.1 Cafodd y ddogfen hon ei chreu ar gyfer cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac ym mhob Awdurdod Rheoli Risg. Mae'n egluro sut i gymhwyso Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 mewn perthynas â Chynlluniau Rheoli Traethlin a phrosiectau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, gan ddefnyddio'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd.
- 1.2 Mae'r nodyn hwn yn cael ei ddarparu ar y cyd gan y tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, y tîm Bioamrywiaeth a'r tîm morol ar ran Llywodraeth Cymru.

### **2. Cynlluniau Rheoli Traethlin**

- 2.1 Dogfennau lefel uchel, anstatudol yw Cynlluniau Rheoli Traethlin ar gyfer cynllunio gwaith i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ym mhob rhan o arfordir Cymru a Lloegr. Mae pedwar cynllun ar gyfer arfordir Cymru. Er nad ydynt yn statudol, maent yn allweddol i ffordd strategol Llywodraeth Cymru o reoli'r risgiau ar yr arfordir. Nid yw'r Cynlluniau hyn yn pennu polisi ar gyfer unrhyw beth heblaw am Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM) ond maent yn ystyriaeth bwysig ar gyfer mathau eraill o ddatblygu sy'n dibynnu ar gynllunio arfordirol, ac mae Polisi Cynllunio Cymru a'r cyngor cysylltiedig (TAN15) yn cyfeirio atynt.
- 2.2 Cafodd y gyfres gyntaf o Gynlluniau Rheoli Traethlin eu cwblhau yn gynnar yn y 2000au. Fe'i dilynwyd gan ail gyfres â dyddiad sylfaen o 2005, a chytunodd y Gweinidog Adnoddau Naturiol ar y cynlluniau hynny yn 2014.
- 2.3 Mae'r Cynlluniau Rheoli Traethlin yn cynnig asesiad lefel uchel o'r risgiau i unigolion, cymunedau, yr amgylchedd a threftadaeth oherwydd erydu arfordirol a llifogydd arfordirol. Maent yn rhagweld y bydd y risg yn cynyddu oherwydd y newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, cynnydd yn lefel y môr, ac maent yn darparu polisiâu rheoli arfordirol cynaliadwy a hirdymor, gan ystyried asedau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae senarios rheoli a ffefrir yn cael eu cynnig ar gyfer y tymor byr (0-20 mlynedd h.y. 2005 i 2025), y tymor canolig (20-50 mlynedd h.y. 2025 i 2055) a'r hirdymor (50-100 mlynedd h.y. 2055 i 2105). Mae'r Cynlluniau Rheoli Traethlin yn ddogfennau byw a gallant newid, gan ddibynnu ar y data diweddaraf. Mae'r Cynlluniau'n nodi pedwar opsiwn polisi ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac arfordirol:
  - cynnal y llinell (HTL) – cynnal yr amddiffynfeydd presennol;
  - symud y llinell o amddiffynfeydd presennol ymlaen (ATL);
  - adlinio neu gilio dan reolaeth (MR);

- dim ymyrraeth weithredol (NAI)<sup>1</sup>

2.4 Mae'r Cynlluniau Rheoli Traethlin yn sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ar reoli'r arfordir yn y dyfodol. Byddai'n rhaid i brosiectau unigol gael eu cymeradwyo cyn dechrau ar waith arfaethedig.

### 3. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

- 3.1 O dan Reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, os yw asesiad yr Awdurdod Cymwys yn dangos bod unrhyw gynllun neu brosiect yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar Ardal Cadwraeth Arbennig a/neu ar Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a/neu safleoedd Ramsar, rhaid cynnal asesiad priodol. Os na all yr asesiad hwnnw gadarnhau na fydd y cynllun neu'r prosiect yn cael effaith andwyol ar integriti unrhyw safle gwarchodedig, dim ond os nad oes unrhyw atebion eraill ac os yw'n bodloni'r prawf IROPI (bod rhesymau hanfodol dros y cynllun, sef ei fod er budd cyhoeddus tra phwysig) y ceir bwrw ymlaen ag ef. Os bwriedir bwrw ymlaen â phrosiect ar sail IROPI, rhaid darparu cynefin cydbwyso sydd ei angen er mwyn sicrhau cydlyniant y rhwydwaith cenedlaethol newydd o safleoedd.
- 3.2 Cynhaliwyd asesiadau priodol o'r Cynlluniau Rheoli Traethlin, a ddangosodd na ellir dweud yn bendant na cheid unrhyw effeithiau andwyol, hynny oherwydd yr effaith a gaiff y wasgfa arfordirol yn ardaloedd Cynnal y Llinell (HTL). Felly, bwriwyd ymlaen â'r Cynlluniau Rheoli Traethlin am nad oedd unrhyw atebion eraill, gan gydnabod y byddai'n rhaid rheoli'r perygl o lifogydd mewn ardaloedd poblog. Cyflwynwyd achos IROPI i'r Comisiwn Ewropeaidd. Rhoddai hwnnw olwg gyffredinol o effaith bosibl polisiâu Cynlluniau Rheoli Traethlin *pe bai* cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd yn cael eu rhoi ar waith yn unol â'r opsiynau rheoli a ffefrir ym mhob Cynllun, ochr yn ochr â mynd ati mewn ffordd strategol i sicrhau mesurau cydbwyso.
- 3.3 Mae cynlluniau neu brosiectau sy'n gweithredu'r polisiâu yn y Cynlluniau Rheoli Traethlin yn cael eu hasesu (gan gynnwys asesiad priodol os yw hynny'n berthnasol) pan fyddant yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo.
- 3.4 Ar yr amod bod modd dangos bod prosiect/cynllun unigol yn gyson â'r polisi perthnasol yn y Cynllun Rheoli Traethlin, bydd yr hysbysiad statudol i Lywodraeth Cymru oddi wrth CNC yn cynnwys cadarnhad byr o hynny a bod modd felly cyfiawnhau'r cynllun/prosiect am nad oes unrhyw atebion eraill ac ar sail y prawf IROPI o'r Cynlluniau hynny.
- 3.5 Byddai'r Awdurdod Cymwys yn defnyddio'r asesiad priodol i asesu faint o gynefin a allai gael ei golli oherwydd y cynllun neu'r prosiect, a byddai hynny'n helpu i ddangos yr angen am gynefinoedd cydbwyso ar lefel genedlaethol. Mae ymchwil ddiweddar<sup>2</sup> i'r hyn y mae wasgfa arfordirol yn ei olygu yn helpu i wneud asesiadau o'r fath yn fwy cyson.

---

<sup>1</sup> Gall NAI olygu er hynny waith rheoli sylweddol, er enghraifft holi perchenogion tir a chymunedau a allai elwa o'r amddiffynfa a datgomisiynu'r amddiffynfeydd mewn ffordd ddiogel heb achosi difrod.

<sup>2</sup> [https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6038fafde90e07055c14049b/FRS17187\\_What\\_is\\_coastal\\_squeeze\\_-\\_report\\_1\\_.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6038fafde90e07055c14049b/FRS17187_What_is_coastal_squeeze_-_report_1_.pdf)

- 3.6 Bydd modd cynnal y mesurau cydbwysu y bydd eu hangen i wneud iawn am y colledion hynny drwy weithio mewn ffordd strategol drwy'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd i fynd i'r afael ag effeithiau andwyol polisïau'r Cynlluniau Rheoli Traethlin. Er mwyn i'r Rhaglen honno lwyddo, ac er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, bydd yn rhaid wrth raglen o fonitro ac adolygu cyson i weld a fydd cynefinoedd gwarchodedig yn cael eu colli, a fydd unrhyw effaith andwyol arnynt neu a fyddant yn ehangu.

#### **4. Diben y Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd**

- 4.1 Sefydlwyd y Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd (RhGCC) gan Lywodraeth Cymru er mwyn asesu'r angen am gynefinoedd arfordirol i wneud iawn am gynefinoedd a gollir o ganlyniad i gynlluniau neu brosiectau sy'n cael eu hariannu drwy ei rhaglen FCERM mewn cysylltiad â pholisïau Cynlluniau Rheoli Traethlin. Bydd y Rhaglen hefyd yn darparu cynefinoedd o'r fath. Mae'r Rhaglen hon yn cael ei chynnal gan CNC ar ran Llywodraeth Cymru.
- 4.2 Mae'r RhGCC yn ategu gwaith 'monitro ac asesu' IROPI ar y Cynlluniau Rheoli Traethlin drwy ddiweddarau modelau sy'n dangos gwasgfa arfordirol bosibl gan ddefnyddio data o'r asesiadau manwl o gynlluniau neu brosiectau, ac yna dilysu'r data hynny drwy eu cymharu â'r cynefinoedd sydd wedi cael eu colli. Drwy wneud hynny, mae'n sicrhau bod targedau'n parhau'n gyfredol fel y bo modd sicrhau bod digon o gynefin cydbwysu'n cael ei ddarparu.
- 4.3 Mae'r targedau yn y RhGCC yn cael eu datblygu fel a ganlyn:
- cafodd effaith bosibl cynlluniau a phrosiectau rheoli perygl llifogydd ei hasesu yn y lle cyntaf drwy Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynlluniau Rheoli Traethlin;
  - mae targedau'n cael eu caboli trwy waith monitro a thrwy ystyried asesiadau o brosiectau unigol a ddarperir gan yr ymgeisydd a'u dilysu gan CNC;
  - bydd yr asesiadau hynny'n dangos y cynefinoedd y disgwylir eu colli, a dyna fydd y sail ar gyfer diffinio maint, lleoliad a'r math o fesurau cydbwysu y mae angen eu darparu ar lefel strategol drwy'r RhGCC;
  - bydd targedau'r RhGCC yn cael eu hadolygu'n gyson yng ngoleuni: colledion posibl a nodir drwy asesiadau pellach; gwaith monitro i asesu maint a lleoliad y cynefinoedd sydd wedi'u colli oherwydd cynlluniau neu brosiectau newydd (ymyriadau rheoli perygl llifogydd); ac ar ôl mynd ati o bryd i'w gilydd, ar sail yr wybodaeth ddiweddaraf am faint y cynnydd yn lefel y môr, i ailwerthuso faint o gynefinoedd y rhagfynegir y byddant yn cael eu colli (e.e. UKCP18).
- 4.4 Mae'r RhGCC yn golygu bod Cymru yn gallu mynd ati i ddarparu unrhyw gynefin cydbwysu angenrheidiol mewn ffordd holistaidd a chydgyssylltiedig. Mae hynny'n fwy buddiol i'r cynefin o dan sylw na mynd ati i wneud hynny mewn ffordd dameidiog.

#### **5. Safbwynt Llywodraeth Cymru**

- 5.1 Y corff penderfynu perthnasol fydd yn penderfynu, fesul achos, ar gynlluniau neu brosiectau sy'n gweithredu polisïau Cynlluniau Rheoli Traethlin. Er mai mater i'r Awdurdod Cymwys perthnasol yw penderfynu pryd y byddai angen cynnal asesiad priodol er mwyn asesu effeithiau posibl cynllun neu brosiect, byddem yn disgwyl i'r

pwyntiau cyffredinol a ganlyn gael eu hystyried yn achos prosiectau i reoli perygl llifogydd neu erydu arfordirol.

- 5.2 Os yw amddiffynfa newydd rhag llifogydd yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar nodweddion y rhwydwaith cenedlaethol newydd o safleoedd, dylai gael ei hystyried yn unol â gofynion rheoliadau 63 a 64 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Yn yr un modd, os yw unrhyw gynllun neu brosiect i estyn amddiffynfa rhag llifogydd tua'r môr, a allai gael effaith negyddol arwyddocaol ar safle, dylai gael ei ystyried yn unol â'r un gofynion. Bydd angen cynnal ymarfer sgrinio i benderfynu a fydd angen cynnal asesiad priodol.
- 5.3 Dylai unrhyw waith sgrinio ac unrhyw asesiad priodol y bydd eu hangen fod yn gymesur â maint y gwaith, a'r unig effeithiau arwyddocaol y dylid eu hystyried fydd y rheini sy'n gysylltiedig â'r ymyriad newydd (y cynllun neu'r prosiect) ac nid yr amddiffynfa neu strwythur gwreiddiol neu bresennol.
- 5.4 Yn unrhyw un o'r enghreifftiau uchod, os yw asesiad priodol yn dangos y bydd ymyriad FCERM yn cael effaith andwyol ar integriti'r rhwydwaith cenedlaethol o safleoedd, ac os aiff yn ei flaen ar sail prawf IROPI, yna bydd yn rhaid sicrhau'r mesurau cydbwysu angenrheidiol. Y ffordd fwyaf effeithiol o wneud hynny fyddai drwy'r RhGCC. Mae'r Rhaglen honno'n caniatáu i waith fynd heb fod angen i'r Awdurdod Rheoli Risg unigol ddarparu mesurau cydbwysu. Fodd bynnag, byddai darparu tir, gwella ansawdd cynefin neu gefnogi'r RhGCC yn cryfhau ei achos busnes, a gallai hynny gynnig manteision ehangach o ran bioamrywiaeth ac amwynder. Bydd disgwyl i hyrwyddwr y cynllun nodi'r gofynion tebygol wrth gynnal yr asesiad priodol. CNC sy'n parhau'n gyfrifol am fonitro colledion a rheoli cyflenwad digonol ac amserol o dir drwy'r RhGCC.
- 5.5 Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod adran 63(1) o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 yn gymwys i unrhyw wasgfa arfordirol sy'n bodoli oherwydd amddiffynfa hanesyddol rhag llifogydd na'r gwith o'i chynnal. Er enghraifft, trwy'r berthynas rhwng yr amddiffynfa hanesyddol a'r cynnydd yn lefel y môr.
- 5.6 Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Ddatblygu Cynaliadwy a thrwy system sy'n seiliedig ar gynllun, mae'n cefnogi proses o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar lefel y risg ac yn gymesur iddi. Yn unol â'r Cynllun Morol a bwriadau Erthygl 18 o Orchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau a Eithrir) (Cymru), ni ddylai unrhyw waith cynnal a chadw na gwaith trwsio tebyg am ei debyg a gynhelir o fewn ffin bresennol yr amddiffynfa olygu bod agen asesiad priodol na phrawf IROPI gan na fyddai gwaith o'r fath yn cael ei ystyried yn gynllun neu brosiect sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd neu safle morol Ewropeaidd o dan adran 63(1) o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

## **6. Prosiectau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Unigol a'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd (RhGCC)**

- 6.1 Rhaid i Dîm Trwyddedu Morol CNC, sef y rheoleiddiwr trwyddedau morol a'r Awdurdod Cymwys o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, sicrhau bod gofynion y Rheoliadau yn cael eu bodloni wrth asesu ceisiadau

am drwydded forol, gan ystyried hefyd faterion eraill, er enghraifft, polisi perthnasol Llywodraeth Cymru.

- 6.2 Sefydlwyd y Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd (RhGCC) ar ôl i Weinidog blaenorol yr Amgylchedd roi cyfarwyddyd i wneud hynny yn 2009 er mwyn helpu i sicrhau bod modd ymateb mewn ffordd strategol i wasgfa arfordirol sy'n gysylltiedig â chynlluniau FCERM.
- 6.3 CNC sy'n rheoli'r RhGCC a disgwylir iddo gyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru am hynt y gwaith ar y rhaglen bob blwyddyn. CNC hefyd sy'n parhau'n gyfrifol am sicrhau cyflenwad o dir ar gyfer mesurau cydbwyso o dan y Rhaglen ac am y gwaith monitro parhaus sy'n dangos bod mwy o gynefin cydbwyso ar gael o dan y Rhaglen na'r cynefinoedd a gollir o ganlyniad i'r wasgfa arfordirol sy'n gysylltiedig â chynlluniau FCERM. Nid yw hyn yn rhwystro ymgeiswyr rhag cynnig tir cydbwyso na gwelliannau ansoddol (gweler 6.7 a 6.8).
- 6.4 RhGCC yw'r ffordd y cytunwyd arni i ddarparu cynefin i wneud iawn am golledion ac am niwed sy'n cael eu hachosi, neu sy'n debygol o gael eu hachosi, gan gynlluniau FCERM. Rhoddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei chefnogaeth i'r Rhaglen yn ei ymateb i Lywodraeth y DU (Gorffennaf 2012) a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Gweithgor ar y Cyfarwydddebau Llifogydd (Hydref 2015).
- 6.5 Dylid gallu manteisio ar y RhGCC os bydd yr astudiaeth gwmpasu a'r asesiadau priodol o gynllun newydd o dan FCERM ddod i'r casgliad y bydd nodweddion ar safle neu safleoedd y rhwydwaith cenedlaethol yn debygol o gael eu colli neu eu niweidio. Ar ôl i'r colledion (effeithiau andwyol sy'n ganlyniad i wasgfa arfordirol) gael eu cyfrifo yn unol â'r broses ar gyfer cynnal Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC), dylai adran Trwyddedu Morol CNC gofnodi'r colledion hynny a rhoi'r wybodaeth i'r tîm RhGCC. Gellir mynd ati wedyn o dan y broses ARhC ac IROPI gan gyflwyno mesurau cydbwyso yn strategol o dan y RhGCC. Rhaid i CNC roi gwybod i swyddogion llifogydd Llywodraeth Cymru pan fo ceisiadau am gynlluniau FCERM yn sbarduno'r broses hon a chynnwys y manylion yn yr adroddiad blynyddol.
- 6.6 Mae'r RhGCC o fudd i Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru gan nad oes gofyn iddynt ohirio cynllun arfordirol/llifogydd er mwyn sicrhau cynefin i wneud iawn am geisiadau sy'n debygol o effeithio ar y rhwydwaith cenedlaethol o safleoedd. Yn aml, nid oes unrhyw dir priodol o'r fath o fewn ffiniau gweinyddol yr ymgeisydd. Hyd yn oed pe byddai tir ar gael, byddai trafodaethau â pherchenogion y tir a/neu warantau i ddarparu tir o'r fath yn y dyfodol yn achosi cryn oedi. Mae'r RhGCC yn caniatáu i geisiadau symud yn eu blaen a dyma'r ffordd i ddarparu tir cydbwyso ac i fodloni gofynion y Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.
- 6.7 Mae Awdurdodau Rheoli Risg yn dal yn cael eu hannog i ddarparu cynefin i wneud iawn am yr un a gollir os oes modd, drwy helpu i sicrhau safleoedd priodol, drwy drafod gyda rhanddeiliaid a thrwy ddefnyddio ffyrdd eraill priodol o gynnig cymorth. Lle mae achos busnes am gyllid grant yn pennu darparu tir ar gyfer Rhaglenni Cenedlaethol Creu Cynefinoedd, caiff hyn ei ystyried fel budd ehangach i'r cynllun ac o'r herwydd bydd yn ffactor wrth flaenoriaethu rhaglen FCERM.

- 6.8 Os oes angen cynefin cydbwyso ar unwaith (pan fo cynllun newydd i atal llifogydd yn arwain at golli cynefin yn syth), yna rhaid i'r tir hwnnw fod wedi'i 'fancio' eisoes yn y RhGCC, neu gael ei ddarparu gan yr ymgeisydd. Fell arall, ni ellir bwrw ymlaen â'r cynllun.
- 6.9 Ni ddylai gwaith trwsio tebyg am ei debyg na gwaith cynnal a chadw nad yw'n estyn yr amddiffynfa tua'r môr ofyn am gynnal asesiad priodol neu ddechrau'r broses IROPI gan nad yw gwaith o'r fath yn gynllun neu brosiect fyddai'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd neu safle morol Ewropeaidd o dan adran 63(1) o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.
- 6.10 Mae cynnal a chadw a/neu drwsio amddiffynfeydd arfordirol yn waith hollbwysig a dylid gwneud hynny yn unol â'r polisïau a ffeirir yn y Cynlluniau Rheoli Traethlin. O gymharu â pheidio â gwneud dim, ni fydd cynnal a chadw amddiffynfeydd bob amser yn dwysáu neu'n gwaethygu gwasgfa arfordirol, oherwydd y bydd yr amddiffynfeydd hynny'n parhau yn eu lle am gryn amser heb unrhyw waith cynnal a chadw mawr a/neu oherwydd eu bod, o bosibl, yn agos at seilwaith trefol neu dopograffi sy'n atal cynefinoedd rhynglanwol rhag datblygu. Gall gwneud dim arwain hefyd at golledion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mawr ar y tir sydd yn ymyl yr amddiffynfeydd. O ganlyniad, byddai disgwyl gweld, wrth sgrinio gwaith cynnal a chadw a gwaith trwsio tebyg am ei debyg ar amddiffynfeydd, na fyddai angen cynnal asesiad priodol neu broses IROPI arno. Eithriadau posibl i hyn fyddai gwaith sy'n estyn yr amddiffynfeydd tua'r môr neu ddatblygiad cysylltiedig a allai arwain at niweidio'r ardal warchodedig neu ei cholli.
- 6.11 Ni fwriedir i'r RhGCC ddarparu cynefin i wneud iawn am gynefin a gollir oherwydd asedau trydydd partïon, er enghraifft, asedau y mae darparwyr seilwaith neu gwmnïau ynni neu reilffordd yn gyfrifol amdanynt. Wedi dweud hynny, mewn achosion eithriadol, mae'n bosibl y bydd trydydd partïon yn gallu cyfrannu at y RhGCC ac elwa ohoni.
- 6.12 Mae dwy ran allweddol i'r gwaith o sicrhau bod mesurau cydbwyso yn eu lle cyn i gynefin gael ei golli: (i) modelu colledion posibl wrth lunio strategaethau arfordirol a chynlluniau mawr a (ii) mynd ati'n barhaus i fonitro cynefinoedd rhynglanwol drwy'r RhGCC, grwpiau arfordirol a Rhaglen Monitro Arfordirol Cymru.
- 6.13 Dylid mireinio mwy ar dargedau'r RhGCC drwy'r data modelu a gyflwynir yn y cais ac yn yr asesiadau o gynlluniau newydd. Dylid gwirio'r targedau hynny yn ôl y colledion neu'r crynodiant gwirioneddol sy'n gysylltiedig â chynlluniau arfordirol.
- 6.14 Byddai rhaglen fonitro genedlaethol yn sicrhau nad oes mwy o gynefin yn cael ei golli (oherwydd prosiectau Rheoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol) na'r cynefin a ddarperir drwy'r RhGCC i wneud iawn am yr hyn a gollir neu, fel arall, bod gwelliannau y cytunir arnynt yn cael eu gwneud i ansawdd safle gwarchodedig<sup>3</sup>. Nid yw Gweinidogion Cymru wedi cael gwybod am unrhyw golledion hyd yma (Mawrth 2021) ac felly, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd nad yw RhGCC ar ei cholled o ran cynefinoedd. Dylai gwaith monitro effeithiol barhau i bennu'r angen i

---

<sup>3</sup> Gweler dogfen gwmpasu'r UE ar y berthynas rhwng y Gyfarwydddeb Llifogydd a'r Cyfarwydddebau Natur gan gynnwys enghreifftiau o welliannau ansoddol ar hyd Afon Salzach.

ddarparu cynefin cydbwyso mewn perthynas â gwasgfa arfordirol sy'n deillio o brosiectau FCERM newydd, yn unol â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer FCERM yng Nghymru<sup>4</sup>.

6.15 Ni fwriedir i'r RhGCC ymdrin â'r holl golledion neu niweidiau naturiol sy'n dod o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (a ddiffiniwyd cyn hynny yn Erthgyl 6(2) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd) a ddaw yn sgil cynnydd yn lefel y môr. Yn hytrach bydd yn ymdrin yn unig â'r rheini sy'n deillio o ymyriadau FCERM, yn unol â gofynion y Rheoliadau. Dylid darllen y nodiadau hyn a'u dehongli yn y cyd-destun hwnnw.

6.16 Ceir rhagor a fanylion yn Strategaeth Genedlaethol FCERM Cymru: asesiad amgylcheddol strategol (2020).

---

<sup>4</sup> Bydd CNC yn datblygu ac yn creu rhaglen fonitro addas i gefnogi a llywio'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd ac yn adrodd i Lywodraeth Cymru ar hynny bob blwyddyn.